**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Panel Craffu Perfformiad – Yr Amgylchedd Naturiol

**Ystafell Bwyllgor 5, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Llun, 16 Rhagfyr 2019 am 10.00 am**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P K Jones (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| E W Fitzgerald | M H Jones | I E Mann |
| C Richards | B J Rowlands | M Sherwood |
| W G Thomas | | |

**Cynghorwyr presennol eraill:**

| | |
|---|---|
| Mark Thomas | Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Bob Fenwick | Arweinydd Grŵp Cynnal a Chadw Priffyrdd |
| Jeremy Davies | Arweinydd Grŵp Parciau a Glanhau |
| Mark Wade | Pennaeth Tai ac Iechyd y Cyhoedd |
| Tom Price | Arweinydd Tîm - Rheoli Llygredd a Thai'r Sector Preifat |
| Brij Madahar | Cydlynydd Craffu |

**Gwahoddedigion eraill:**
Dr Rosemary Mason

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wy): J A Hale a/ac L J Tyler-Lloyd

---

## 14 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 15 Gwahardd pleidleisiau chwip a datgan chwipiau'r pleidiau.

Yn unol â Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, ni ddatganwyd pleidleisiau chwip na chwipiau'r pleidiau.

## 16 Cofnodion

Cytunwyd bod cofnodion cyfarfodydd Panel Craffu Perfformiad yr Amgylchedd Naturiol, a gynhaliwyd ar 25 Medi 2019 a 22 Hydref 2019, yn gofnodion cywir.

17 **Cwestiynau gan y Cyhoedd**

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau gan y cyhoedd.

18 **Rheoli Chwyn.**

Cafodd y panel drafodaeth ynghylch rheoli chwyn, yn enwedig am ddefnydd y cyngor o glyffosad, sydd wedi bod yn destun trafodaethau cyhoeddus mewn perthynas ag iechyd a diogelwch.

Adroddodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, ynghyd â'r swyddogion perthnasol, i'r panel am ymagwedd y cyngor a'i weithgareddau mewn perthynas â rheoli chwyn, defnyddio glyffosad a'r heriau o ran dod o hyd i ffyrdd amgen o gyflawni hyn.

Clywodd y panel gan gyfranogwr allanol, Dr. Rosemary Mason, sydd wedi ymgyrchu'n erbyn defnyddio glyffosad. Rhannodd ei phryderon â'r panel o ran defnyddio glyffosad a'i effeithiau peryglus ar iechyd pobl a bioamrywiaeth.

Canolbwyntiwyd ar y canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Chwistrellu chwyn ger priffyrdd, adnoddau a chostau
- Y Gwasanaeth Parciau (gan gynnwys trin canclwm)
- Trwyddedu glyffosad
- Pryderon iechyd
- Canllaw Llywodraeth Cymru a Chymdeithas Rhagoriaeth mewn Gwasanaeth Cyhoeddus (APSE)
- Barn y cyhoedd am reoli chwyn
- Opsiynau eraill yn lle glyffosad

Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y ffordd ymlaen. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn

**PENDERFYNWYD** y byddai'r panel yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i nodi ei gasgliadau a'i argymhellion ar y mater o reoli chwyn.

19 **Rheoli Llygredd Aer.**

Cafodd y panel drafodaeth ynghylch rheoli llygredd aer fel mater iechyd cyhoeddus difrifol, sydd wedi bod yn bwnc trafod i'r Gweithgor Craffu, a bydd yn fater monitro perfformiad cyson trwy'r panel craffu hwn.

Adroddodd Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd, ynghyd â'r swyddogion perthnasol, i'r panel am weithgareddau monitro llygredd aer yn Abertawe, a'r camau gweithredu i wella ansawdd aer.

Ystyriodd y panel ganllawiau polisi Llywodraeth Cymru 'Rheoli Ansawdd Aer Lleol yng Nghymru' (cyhoeddwyd Mehefin 2017), a oedd yn darparu pwynt cyfeirio ar gyfer trafod sut mae'r cyngor yn gweithio i wella ansawdd aer, iechyd pobl ac ansawdd bywyd yn Abertawe.

Canolbwyntiwyd ar y canlynol yn ystod y drafodaeth:

- Monitro ansawdd aer a chydymffurfio â Safonau Ansawdd Aer Cenedlaethol
- Lefelau mesuredig o Nitrogen Deuocsid ($NO_2$), gan gynnwys monitro o gwmpas ysgolion
- Cyfraniad tagfeydd traffig i lefelau llygredd aer a sŵn
- Problem cerbydau dan gontract (coetsys/tacsis, etc.) Rhieni sy'n parcio y tu allan i ysgolion gyda'r motor ymlaen a'r effaith ar iechyd plant
- Diwylliant ceir, safon cludiant cyhoeddus a chynnydd mewn gwaith adeiladu tai
- Defnyddio cerbydau electrig
- Sut mae diwydiant yn Abertawe a'r ardal yn cyfrannu at lygredd aer, a'r drefn arolygu a monitro sydd ar waith
- Cysylltiad rhwng llygredd aer ac amddifadedd/anghydraddoldebau iechyd
- Pwysigrwydd isadeiledd gwyrdd wrth helpu i leihau effeithiau niweidiol llygredd aer a sŵn
- Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer y cyngor
- Y camau gweithredu a gymerwyd i wella ansawdd aer a lleihau cysylltiad â llygredd aer
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a negeseuon ynghylch ansawdd aer
- Cyfleoedd sy'n codi o Ddiwrnod Aer Glân y DU ar 18 Mehefin 2020, ymgyrch llygredd aer fwyaf y DU
- Cronfa Grant Teithio Llesol Llywodraeth Cymru
- Safbwynt y cyngor mewn perthynas â chanllawiau polisi Llywodraeth Cymru
- Cynllun Aer Glân i Gymru Llywodraeth Cymru, a'r ymagwedd at leihau llygredd aer yng Nghymru, yr ymgynghorir arno tan 10 Mawrth 2020

Ystyriodd aelodau'r panel yr wybodaeth a ddarparwyd, gan ofyn cwestiynau, a mynegi'u barn am y ffordd ymlaen. Diolchodd y Cadeirydd iddynt am eu mewnbwn

**PENDERFYNWYD** y byddai'r panel yn ysgrifennu at Aelod y Cabinet dros yr Amgylchedd a Rheoli Isadeiledd i nodi ei gasgliadau a'i argymhellion ar y mater o reoli llygredd aer.

20 **Llythyrau.**

Derbyniodd y panel yr ohebiaeth a anfonwyd gan y panel a'r ymatebion a dderbyniwyd yn dilyn cyfarfod y panel ar 25 Medi 2019:

- Llythyr at/oddi wrth Aelod y Cabinet dros Drawsnewid a Pherfformiad.
- Llythyr at/oddi wrth Weinidog Llywodraeth Cymru dros yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig
- Gohebiaeth ag Aelod y Cabinet dros Wella Addysg, Dysgu a Sgiliau

21 **Cynllun Gwaith 2019/20.**

Nodwyd cynllun gwaith y panel ar gyfer y flwyddyn ddinesig hon. Nodwyd y canlynol fel eitemau i'w monitro ar gyfer cyfarfod nesaf y panel, a drefnir ar gyfer mis Mawrth 2020:

- Gwaith dilynol - Ymholiad Craffu ar yr Amgylchedd Naturiol
- Rheoli Perygl Llifogydd Lleol

22 **Er gwybodaeth: Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 - Adran Gyntaf 6 Adroddiad Monitro Dyletswydd Bioamrywiaeth i Lywodraeth Cymru.**

Nodwyd yr adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.32 pm

**Cadeirydd**